**Ymateb Ysgrifenedig Y Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar Gyllidebu ar gyfer Plant yng Nghymru**

**Tachwedd 2010**

**Crynodeb Gweithredol**

Rhoddodd Jane Hutt AC, y cyn-Weinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (PADGOS), dystiolaeth i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2009 ac yn dilyn hyn, gwnaeth gais i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys swyddogion o bob un o adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru (gyda chynghorwyr arbenigol o Achub y Plant, Cymru a CLlLC).

Diben y grŵp oedd datblygu gwell dealltwriaeth gyffredin o gynnydd a datblygiadau cyfredol ym maes cyllidebu ar gyfer plant a phobl ifanc ar lefel genedlaethol yng Nghymru, a datblygu syniadau a chynigon o ran gwelliannau wrth ragamcanu cyllidebau a gwariant ar blant a phobl ifanc, gan gynnwys gwell tryloywder ar lefel Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Ystyriodd y Grŵp ffyrdd y gellid cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy o fewn prosesau cyllidebu yn y dyfodol. Ystyriodd y Grŵp hefyd sut y gallai prosesau gwneud penderfyniadau cyllidebol ar sail hawliau ar gyfer plant a phobl ifanc a chan gynnwys plant a phobl ifanc gyfrannu at liniaru tlodi plant. Un o nodau allweddol y Strategaeth Tlodi Plant newydd i Gymru yw dangos sut y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymdrin ag anghenion teuluoedd incwm isel â phlant ac yn sicrhau y bydd ein hamrywiaeth o bolisïau, adnoddau a gwasanaethau yn gwella canlyniadau ac yn lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mae anelu adnoddau at y rhai sydd eu hangen fwyaf drwy gyllidebu "o blaid pobl dlawd" yn fater allweddol.

Mae gan gyllidebu ar gyfer plant a phobl ifanc botensial sylweddol i helpu i lywio’r penderfyniadau a wneir ar lefel genedlaethol a lleol. Mae’n rhoi gwell dealltwriaeth o gyllidebau a gwariant ar lefel genedlaethol a lleol i sicrhau bod yr adnoddau’n adlewyrchu blaenoriaethau polisi ac yn fwy cyson â hwy.

Mae angen rhoi sylw i nifer o faterion methodolegol er mwyn cefnogi datblygiad plant a phobl ifanc yn genedlaethol ac yn lleol. Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol ein bod, ar lefel genedlaethol, wedi dechrau dadansoddi’r gwariant ar blant a phobl ifanc; mae nifer o sialensiau ynghlwm â’r gwaith hwn ac mae angen datblygu’r dull gweithredu ymhellach i sicrhau ei fod yn gadarn ac ystyrlon. Byddwn yn parhau i ymgymryd â’r gwaith sydd ei angen er mwyn gwneud gwell defnydd o wybodaeth ariannol.

A ninnau’n gwneud cynnydd ar lefel genedlaethol, rwy’n ymrwymedig hefyd i ddatblygu model o arfer gorau i’w ddefnyddio yn lleol wrth gyllidebu ar gyfer plant a phobl ifanc. Bydd hwn yn offeryn pwysig a allai helpu i lywio a gwella’r prosesau penderfynu a chynllunio lleol, yn unol â’r blaenoriaethau cenedlaethol a lleol.
Nododd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen nad yw’n ofynnol ar hyn o bryd i Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc gynhyrchu unrhyw wybodaeth ariannol yn

ymwneud â'u buddsoddiad mewn plant a phobl ifanc yn lleol. Er hynny, fe'u hanogir i gyfuno cyllidebau a chomisiynu ar y cyd. Byddwn yn parhau i archwilio dulliau posibl o gryfhau'r broses gynllunio drwy wella argaeledd yr wybodaeth am gyllidebau'r holl bartneriaid. Yn y tymor hirach, bydd hyn yn gwella'r cynllunio a'r broses gwneud penderfyniadau ar lefel leol gan ystyried blaenoriaethau ac anghenion plant a phobl ifanc. Mae'n bosibl hefyd y bydd mwy o gyfuno cyllidebau a chyd-gomisiynu'n digwydd o ganlyniad i hyn.

Gallai datblygiadau ym maes cyllidebu cyfranogol gyda phlant a phobl ifanc wneud cyfraniad pwysig wrth annog eu datblygiad fel dinasyddion gweithgar. Bydd hyn nid yn unig yn gwella datblygiad personol plant a phobl ifanc ond hefyd eu cyfraniad at ddatblygu eu cymunedau a dealltwriaeth o'r angen i flaenoriaethu adnoddau a'r broses ar gyfer gwneud hynny.

Gall cyllidebu cyfranogol gyfrannu hefyd at ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc i wneud penderfyniadau mwy gwybodus am reoli eu harian ac felly gall gyfrannu at chwalu'r cylch tlodi.

Ystyriwyd yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc hefyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, ac roedd yr argymhellion yn ddefnyddiol o ran llywio gwaith pellach y rhaglen hon ar gyfer y dyfodol.

Yn dilyn gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, gofynnais i'm swyddogion gymryd i ystyriaeth y datblygiadau diweddaraf, yn enwedig y Mesur arfaethedig Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, y Cynllun Cyflawni Strategaeth Tlodi Plant Cymru a'r fenter newydd Teuluoedd yn Gyntaf.

Yn yr ymateb, nodir amrywiaeth o faterion lle mae'n debygol y bydd angen rhagor o waith ac y rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'r Pwyllgor i sicrhau yr ymdrinnir â'r materion ac y gwneir cynnydd.

Yn sgîl yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a gynhaliwyd yn ddiweddar, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn gwneud yn siŵr bod pob ceiniog yn cyfrif. Mae argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn anelu at wneud gwell defnydd o'r cyllidebau a ffrydiau gwaith cyfredol yn hytrach na chreu rhai newydd a fydd yn arwain at bwysau ariannol ychwanegol.

Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad, sef 1-11 isod.

**Nodir Ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod:**

**Argymhelliad 1**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi un strategaeth yn nodi'r canlyniadau a ddisgwylir o ganlyniad i'w gwariant ar blant a phobl ifanc, gyda chynllun gweithredu ar gyfer gwireddu'r strategaeth hon.

**Ymateb: Derbyn o ran Egwyddor**

Rwy'n cytuno y dylid cydlynu ac integreiddio ein dull o weithredu'r polisïau ar gyfer plant a phobl ifanc, ac y dylem oll weithio yn unol â set gyson a chydlynol o flaenoriaethau er mwyn cyflawni amcanion cyffredin. Rwy'n credu ein bod eisoes yn gwneud hyn, ac nid wyf wedi fy argyhoeddi y byddai cyhoeddi un strategaeth yn ychwanegu unrhyw werth gwirioneddol. Er mwyn sicrhau dull cynhwysfawr a chydlynol o weithredu polisïau plant a phobl ifanc rydym yn gweithio ar nifer o lefelau gan ddefnyddio amrywiaeth o fecanweithiau.

Pwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc sy'n cydlynu polisïau ar gyfer plant a phobl ifanc ar draws y llywodraeth gyfan, ar lefel Weinidogol. Ers 2004, mae holl bolisïau Llywodraeth y Cynulliad i blant a phobl ifanc wedi'u seilio ar saith nod craidd sy'n deillio o Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC). Bydd y Mesur arfaethedig Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) yn ategu ymhellach ein hymrwymiad i hawliau plant a phobl ifanc a bydd yn gymwys i bortffolio pob Gweinidog. Ym mhlith y swyddogion, rydym wedi sefydlu Rhwydwaith Datblygu Plant a Phobl Ifanc ar draws pob adran o'r llywodraeth er mwyn cydlynu rhagor ar y datblygiadau polisi ar gyfer plant a phobl ifanc. I sicrhau y cyflawnir amcanion gwell i blant a phobl ifanc, caiff y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc eu llywio gan y canllawiau cynllunio a gyhoeddir gennym, sy'n nodi blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad o ran cyflenwi gwasanaethau a chymorth lleol i blant a phobl ifanc.

Byddaf yn parhau i weithio'n agos â'm cydweithwyr yn y Cabinet i sicrhau bod y dull a ddisgrifir uchod yn parhau'n effeithiol. Mae cylch gorchwyl Pwyllgor y Cabinet ar Blant a phobl Ifanc yn nodi swyddogaeth y Pwyllgor i roi cyfeiriad strategol ac adolygu effeithiolrwydd y polisïau a rhaglenni er mwyn cyfrannu at wireddu blaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer plant a phobl ifanc.
Rwy'n bwriadu edrych ymhellach ar wneud rhagor o ddefnydd o'r Pwyllgor yn y dyfodol i fonitro'r modd y caiff cyllidebau plant a phobl ifanc Llywodraeth y Cynulliad eu dyrannu a'u gwario, a'r canlyniadau cysylltiedig.

**Goblygiadau Ariannol** Y timau cyfredol fydd yn cyflawni'r gwaith hwn a thelir y costau o'r cyllidebau costau rhedeg is-adrannol cyfredol, felly ni fydd unrhyw gostau ychwanegol.

**Argymhelliad 2**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru ar y cyd ag awdurdodau lleol nodi'r canlyniadau a fwriedir o wariant cyllidebol lywodraeth leol ar blant a phobl ifanc.

**Ymateb: Derbyn o ran Egwyddor**

Paratowyd y Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc er mwyn darparu “gweledigaeth strategol” ar gyfer cyflenwi a gwella gwasanaethau i blant a phobl ifanc o fewn pob awdurdod lleol. Mae Canllawiau Cynllunio diwygiedig Plant a Phobl Ifanc 2011 yn gofyn i awdurdodau lleol bennu cyfres o flaenoriaethau lleol ar gyfer pob un o’r saith nod craidd. Dylid seilio’r rhain ar ddadansoddiad o’r data lleol, a dylid cynnwys cynllun gweithredu sy’n canolbwyntio’n benodol ar y canlyniadau i blant a phobl ifanc.

I ategu hyn, mae trafodaethau’n parhau gyda’r awdurdodau lleol ynglŷn â’u Cytundebau Canlyniadau.  Bydd pob cytundeb o’r fath yn cynnwys deg canlyniad. Rhaid i un o’r canlyniadau ymwneud â’r amcan o sicrhau bod “plant a phobl ifanc yn tyfu’n ddinasyddion gweithredol ac yn cyflawni’r safonau lles gorau posibl”, ac, o dan hynny, un o’r saith nod craidd. Mae awdurdodau lleol yn rhydd i ddewis y nod y byddant yn anelu ato, yn seiliedig ar eu dadansoddiad o’r amgylchiadau lleol. Yna, bydd gofyn iddynt ddatblygu rhaglen o gamau gweithredu a thargedau a fydd yn arddangos cyrhaeddiad. Bydd hynny’n alinio’r blaenoriaethau lleol â’r amcanion cenedlaethol.

Byddwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol nodi canlyniadau clir ar gyfer plant, pobl ifanc a’u teuluoedd, a wireddir â chyllid o’r Gronfa newydd Teuluoedd yn Gyntaf.  Teuluoedd yn Gyntaf fydd prif ffocws ein dull o ddarparu chymorth i deuluoedd, yn enwedig y teuluoedd sydd â phlant neu bobl ifanc yn byw mewn tlodi.

Ategir hyn gan offer mesur megis Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc Cymru sy’n rhoi dadansoddiad o les plant a phobl ifanc mewn perthynas â saith nod craidd Llywodraeth y Cynulliad. Mae gwaith ar y gweill i ystyried sut y gellir cyhoeddi’r wybodaeth am gyllidebau plant a phobl ifanc ar lefel Cymru gyfan i gyd-fynd â’r rhifynnau nesaf o Fonitor Lles Plant a Phobl Ifanc Cymru.

Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo hefyd i ddatblygu Arddangos Llwyddiant. Bydd y model hwn yn dangos sut y gellir defnyddio dangosyddion perfformiad ar lefel awdurdodau lleol neu yn genedlaethol i nodi’r cynnydd a wnaed a’r newid yn y canlyniadau dros amser. Bydd y model hwn, ar y cyd â’r datblygiadau eraill a ddefnyddir ganddynt, megis Atebolrwydd ar Sail Canlyniadau, yn cynorthwyo awdurdodau lleol i ddatblygu canlyniadau priodol.

**Goblygiadau Ariannol** Rwyf wedi rhoi hyd at £1.5 miliwn ar gael yn y flwyddyn ariannol hon i gefnogi gwaith y chwe Awdurdod Lleol 'arloesol' ac ar gyfer gwerthuso a dosbarthu gwybodaeth gysylltiedig. Byddwn yn gweithio gyda CLlLC yn ystod y cyfnod pontio o Cymorth i gyllid Teuluoedd yn Gyntaf er mwyn cytuno ar ganlyniadau a phennu cyllideb briodol ar gyfer y gronfa.

Y timau cyfredol fydd yn cyflawni'r gwaith hwn a thelir y costau o'r cyllidebau costau rhedeg is-adrannol cyfredol, felly ni fydd unrhyw gostau ychwanegol.

**Argymhelliad 3**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ar gasglu data gan bartneriaid lleol, yn cynnwys awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, i alluogi Datganiadau Cyllideb Plant a Phobl Ifanc i gael eu cynhyrchu, a nodi amserlen ar gyfer hyn.

**Ymateb: Derbyn o ran Egwyddor**

Rwy'n deall pryderon y Pwyllgor yn y maes hwn ac er fy mod yn cytuno bod angen canllawiau pellach, nid wyf yn rhannu eu barn mai canllawiau statudol ychwanegol yw'r system orau i'w defnyddio ar hyn o bryd. Mae'r gwaith o gyllidebu ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn ddatblygiadol ac archwiliadol ei natur. Rwy'n ymwybodol bod papur wedi'i gyhoeddi o'r enw *Cyllidebu ar gyfer Plant ar y Lefel Leol.* Mae hwn yn rhoi canllawiau i awdurdodau lleol ac arweiniad cam wrth gam i'r gwaith o ddadansoddi cyllideb, cyllidebu cyfranogol a rhai enghreifftiau yn seiliedig ar arferion a dolenni i adnoddau pellach. Man cychwyn yw'r gwaith hwn, a gynhaliwyd gan Achub y Plant Cymru â chyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy ei Grant i Sefydliadau Plant a Phobl Ifanc.

Bydd angen i unrhyw ganllawiau ychwanegol a ddarperir fod yng nghyd-destun canllawiau diwygiedig ar Gynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau. Mae eisoes yn ofynnol i awdurdodau lleol gasglu amrywiaeth o wybodaeth o'r fath a bydd gan unrhyw faich ychwanegol oblygiadau o ran costau.

Bydd angen cynnal dadansoddiadau a gwaith pellach gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau y gellir cydbwyso baich a chost unrhyw brosesau casglu data ychwanegol yn erbyn y budd a gyflawnir gan y gwaith hwnnw.

Yn ddiweddar, comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru brosiect fel rhan o'r gwaith ehangach sy'n mynd rhagddo ar gyllidebu cyfranogol. Bydd hwn yn cynnwys adolygiad o'r llenyddiaeth sydd ar gael yn nodi'r enghreifftiau cyfredol o gyllidebu cyfranogol a chynhyrchu cyllidebau plant a phobl ifanc (gan gynnwys datganiadau cyllideb plant a phobl ifanc). Bydd gwaith pellach yn cynnwys rhai cynlluniau peilot lleol o dan brosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) Cyrraedd y Nod sy'n debygol o helpu awdurdodau lleol o ran datblygiadau yn y dyfodol ac wrth rannu arfer da. Ar ôl cwblhau'r gwaith hwn,

byddwn mewn sefyllfa well i ystyried beth allai fod ei angen ar lefel leol i hwyluso datblygiadau pellach.

Bydd y canllawiau diwygiedig ar gyfer cynhyrchu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc lleol yn cynnwys cyfeiriad at ddatblygiad y gwaith hwn ac ymhen amser byddant yn rhoi enghreifftiau o arferion effeithiol a nodwyd gan y prosiect ac yn annog y defnydd ohonynt.

Nid wyf yn bwriadu gorfodi casglu data ar lefel leol ond byddaf yn hwyluso datblygiad y fethodoleg ar gyfer cynhyrchu'r wybodaeth honno, ac yn annog y defnydd ohoni. Credaf, ymhen amser, y bydd y gwaith hwn yn arwain at gyllidebau sy'n adlewyrchu'r blaenoriaethau'n well ac yn galluogi dull cyson o gasglu data gan ei gwneud yn haws dadansoddi'r gwariant a'r canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc.

**Goblygiadau Ariannol** Talwyd cost y grant i Achub y Plant o gyllideb rhaglenni APADGOS 2009-10. Cost y gwaith cyllidebu cyfranogol dros gyfnod o 18 mis yw £120k; caiff ei ariannu ar hyn o bryd o fewn Llinell Wariant Ymestyn Hawliau yn y Gyllideb (Maes Rhaglenni Gwariant Sylfeini a Chyfleoedd Llwyddiannus) a'i gefnogi hefyd gan Brosiect ESF Cyrraedd y Nod. Fodd bynnag, bydd cyfle i gael estyniad o 18 mis i'r prosiect a allai roi cyfle i gyflwyno'r prosiectau ymhob ardal os bydd y prosiectau peilot yn llwyddiannus.

Hyd nes y caiff y prosiectau peilot eu cwblhau a'u gwerthuso, nid yw'n glir pa un a fydd angen gwaith ychwanegol. Os bydd angen, cynhelir adolygiad ariannol llawn bryd hynny.

**Argymhelliad 4**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi Datganiadau Cyllideb Plant a Phobl Ifanc.

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Pwyllgor eisoes yn ymwybodol o'r gwaith a wnaed i ddadansoddi'r gwariant ar blant yng Nghymru. Cyflwynwyd papur methodoleg a dadansoddiad i'r Pwyllgor fel rhan o'i waith casglu tystiolaeth ac maent wedi llywio'r argymhellion hyn. Mae'r erthygl a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r enw, *Darpariaeth Ariannol i Blant o fewn Cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru* yn amlygu'r gwaith hwn. Ymgymerwyd â gwaith pellach yn ddiweddar ac mae amcangyfrif newydd sy'n cwmpasu'r grŵp oedran 0-25 wedi'i gyhoeddi. Ar hyn o bryd, rydym yn bwriadu dadansoddi'r gyllideb bob tair blynedd.
http://wales.gov.uk/topics/statistics/articles/expenditureanalysis/

Mae system cynllunio ac adrodd newydd yn cael ei chyflwyno ar hyn o bryd ar draws adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Nod y system hon yw gwella'r broses cynllunio ac adrodd a sicrhau y gall y cysylltiadau rhwng canlyniadau a chyllidebau ddod yn fwy gweledol a thryloyw. Mae swyddogion wrthi'n ystyried ar hyn o bryd pa un a ellid defnyddio'r system hon fel sail ar gyfer datblygu Datganiadau Cyllideb Plant a Phobl Ifanc yn y dyfodol. Gallai'r dull gweithredu hwn hefyd gyfrannu at nodi meysydd lle y gellid defnyddio dulliau cyllidebu 'o blaid pobl dlawd' i helpu i anelu adnoddau at y rhai hynny sydd eu hangen fwyaf. Ar 12 Mai 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Strategaeth a Chynllun Cyflenwi Tlodi Plant newydd i Gymru am gyfnod ymgynghori cyhoeddus o dri mis. Mae'r Strategaeth newydd hon yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant a sicrhau na fydd unrhyw blentyn neu berson ifanc yn wynebu anfantais oherwydd tlodi plant erbyn 2020. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, bydd angen ffocws o'r newydd ar ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys cymorth ariannol, i deuluoedd sy'n byw mewn tlodi.

Darperir y fframwaith ar gyfer y Strategaeth Tlodi Plant newydd gan yr 13 Nod Eang sy'n rhan o'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) ac mae'n nodi amrywiaeth o flaenoriaethau polisi er mwyn darparu cymorth mwy effeithiol wedi'i dargedu i deuluoedd incwm isel. Mae ymdrin ag anghenion teuluoedd incwm isel â phlant (a sicrhau bod polisïau, adnoddau a gwasanaethau o holl Adrannau Llywodraeth y Cynulliad wedi'u hanelu at wella eu canlyniadau a lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli ar hyn o bryd) yn greiddiol i'r Strategaeth newydd hon. Fel rhan o’r strategaeth mae gwaith ar y gweill hefyd i ddatblygu fframwaith gwerthuso a fydd yn canolbwyntio ar y modd y mae polisïau Llywodraeth y Cynulliad yn lleihau tlodi plant yng Nghymru ac yn gwella’r canlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd sy’n byw mewn cartrefi incwm isel. Bydd y gwerthusiad hefyd yn asesu sut (a phryd) y mae rhaglenni’n cyfuno i wella’r canlyniadau i blant o deuluoedd incwm isel.

At hynny, mae gwaith wrthi'n cael ei ddatblygu i ystyried sut i gysylltu'r gwaith o gyflwyno adroddiadau ar wybodaeth gyllidebol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ar lefel Cymru gyfan â rhifynnau o'r Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc i Gymru yn y dyfodol. Disgwylir i'r rhifyn nesaf o'r Monitor gael ei gyhoeddi ddechrau 2011, a phob tair blynedd wedi hynny.

Bydd gwaith yn parhau i werthuso rhaglenni unigol mewn perthynas â chanlyniadau ac i gyhoeddi'r canfyddiadau o'r gwerthusiadau hynny.

**Goblygiadau Ariannol** Mae'r gwaith 0-25 oed cyfredol ar gynhyrchu amcangyfrif wedi'i ddiweddaru o'r gyllideb eisoes yn rhan o'r cynllun gwaith a thelir am hyn drwy gyllidebau Costau Rhedeg Is-adrannol. Ariennir y Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc o Gyllideb Ymchwil APADGOS, ariennir gwaith gwerthuso ar raglenni unigol o gyllidebau Cyfarwyddiaethau Cyffredinol. Telir am y gwaith o werthuso'r Strategaeth Tlodi Plant o gyllideb ymchwil yr adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.

**Argymhelliad 5**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau statudol i awdurdodau lleol ar gynhyrchu Datganiadau Cyllideb Plant a Phobl Ifanc yr awdurdodau eu hunain, a nodi amserlen ar gyfer eu cynhyrchu.

**Ymateb: Derbyn o ran Egwyddor**

Bydd unrhyw faich ychwanegol ar awdurdodau lleol yn cynnwys goblygiadau o ran costau. Rwyf o'r farn nad canllawiau statudol ychwanegol yw'r ffordd orau o gyflawni'r newid dymunol ac yn teimlo efallai y byddai dull gweithredu o'r fath yn gynamserol ar hyn o bryd o ystyried natur ddatblygiadol ac archwiliadol y gwaith hwn.

Bydd angen cynnal dadansoddiadau a gwaith pellach gyda CLILC ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau y gellir cydbwyso baich a chost unrhyw brosesau casglu data ychwanegol yn erbyn y budd a gyflawnir gan y gwaith hwnnw.

Megis dechrau yn unig y mae’r gwaith o ddatblygu methodoleg ar gyfer cyllidebu i blant a phobl ifanc yn lleol. Er gwaethaf hynny, mae’n amlwg, pe gwneid gwell defnydd o wybodaeth ariannol, y gellid gwella ansawdd y cynllunio lleol yn y tymor hirach a chael gwell dealltwriaeth o’r patrymau buddsoddi cyfredol. Gallai hynny, yn ei dro, leihau dyblygu a chreu rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio adnoddau’n fwy effeithiol a chyd-gomisiynu i ddiwallu anghenion.

Gallaf weld yn glir y potensial a’r gwerth ychwanegol y gallai’r fethodoleg hon ei roi i’r broses o wneud penderfyniadau yn lleol, ond rhaid cydnabod bod angen ei datblygu ymhellach cyn y gall ddwyn ffrwyth.

Fel y nodwyd yn yr ymateb i Argymhelliad 3, bydd y canllawiau ar gyfer cynhyrchu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc lleol yn cynnwys cyfeiriad at ddatblygu arferion effeithiol ym maes Cyllidebu ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ar lefel leol. Yn y dyfodol, bydd y canllawiau’n annog y defnydd o’r arferion hynny er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson ac effeithiol.

**Goblygiadau Ariannol** Mae goblygiadau gwaith amgen arfaethedig i ymdrin â'r argymhelliad hwn yr un peth ag argymhelliad 3.

**Argymhelliad 6**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:**

Dylai'r Archwilydd Cyffredinol fonitro cyhoeddi Datganiadau Cyllideb Plant a Phobl Ifanc, gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.

**Ymateb: Nid yw’n berthnasol i Lywodraeth Cynulliad Cymru**

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn gwbl annibynnol ar Lywodraeth y Cynulliad a mater iddo ef yw penderfynu ar waith Swyddfa Archwilio Cymru. Serch hynny, gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn yr un modd ag unrhyw barti arall sydd â buddiant, ofyn i’r Archwilydd Cyffredinol ymgymryd ag adolygiad o’r fath.

Fodd bynnag, mae’r datblygiadau hyn yn dal yn newydd ac nid yw’r datganiadau cyllideb a ddisgrifir yn bodoli ar hyn o bryd ar lefel awdurdodau lleol. Wrth i ddatblygiadau digwydd byddaf yn cadw’r argymhelliad hwn mewn cof fel posibilrwydd.

Pe cynhelid adolygiad o'r fath, byddai’n achosi costau ychwanegol, naill ai i Swyddfa Archwilio Cymru neu yn y ffioedd y mae’n eu codi ar y cyrff a archwilir.  At hynny, byddai angen eglurhad pellach o ran y cylch gwaith a'r lefel o sicrwydd y byddai ei hangen.

**Goblygiadau Ariannol** Byddai'r costau sy'n gysylltiedig â chynnal adolygiad yn fach ond yn ddibynnol ar y cylch gwaith a'r lefel o sicrwydd y byddai ei hangen, a byddai angen ystyried hyn unwaith y byddai'r datganiadau cyllideb wedi'u datblygu.

**Argymhelliad 7**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo, hyd eithaf ei gallu, i hwyluso cyfranogiad priodol gan blant a phobl ifanc mewn gwaith gosod cyllidebau a'u monitro.

**Ymateb: Derbyn**

Derbyniaf yr argymhelliad hwn.  Rydym wrthi ar hyn o bryd yn caffael prosiect i gasglu enghreifftiau o arfer da cyfredol a threialu dulliau cyllidebu cyfranogol ar gyfer y dyfodol.  Datblygir y prosiect hwn fel rhan o'r prosiect ESF Cyrraedd y Nod y soniais amdano uchod.  Unwaith eto, cynhwyswyd y cam gweithredu hwn yn Gwneud Pethau'n Iawn 2009 ac fe'i hamlygwyd o dan argymhellion 3 a 5 uchod.

Wrth ddatblygu'r gwaith hwn, mae'n hanfodol sefydlu cyswllt clir er mwyn dangos sut y gall y gwaith hwn hefyd gyfrannu at rifedd ac addysg ariannol mewn lleoliadau ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol a chael ei integreiddio â hwy.  Bydd y gwaith hwn yn darparu rhywfaint o brofiad ymarferol i blant a phobl ifanc o gymryd rhan mewn prosesau cyllidebu.  Yn ei dro, bydd hyn yn helpu i ddatblygu sgiliau a fydd yn werthfawr nid yn unig ar lefel bersonol ond hefyd mewn perthynas â chyflogaeth.

Fel rhan o'r gwaith hwn, caiff arfer gorau ei nodi ym maes cyllidebu 'o blaid pobl dlawd' a sut y gellid ei ddefnyddio i anelu adnoddau at y rhai hynny sydd eu hangen fwyaf. Bydd hyn yn helpu i ategu ein hymrwymiad i darged Llywodraeth y DU o gael gwared ar dlodi plant erbyn 2020, fel y nodir yn ein Strategaeth Tlodi Plant newydd i Gymru. Yn arbennig, bydd yn helpu i sicrhau y caiff polisïau, adnoddau a gwasanaethau holl Adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru eu hanelu at wella canlyniadau rhieni a phlant sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel yng Nghymru a lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli ar hyn o bryd. Un o nodau allweddol y Strategaeth Tlodi Plant newydd i Gymru yw nodi'r cyfeiriad polisi o ran camau gweithredu ar dlodi plant ar lefel Cymru, fel bod eglurder o ran cyfraniad Llywodraeth y Cynulliad i'r ymgais i fynd i'r afael â thlodi plant.

**Goblygiadau Ariannol** Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo fel y nodir yn fy ymateb i argymhelliad 3 uchod.

**Argymhelliad 8**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:**

Dylai canllawiau statudol Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol, sy'n deillio o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, gynnwys gwybodaeth ynglŷn â galluogi plant a phobl ifanc i ymgysylltu er mwyn cymryd rhan mewn penderfyniadau am gyllidebau.

**Ymateb: Derbyn**

Derbyniaf yr argymhelliad hwn ac rwyf wedi gofyn i'm swyddogion roi'r trefniadau angenrheidiol ar waith i sicrhau y caiff ei weithredu. Rhoddwyd dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol o dan Ran 1 Adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn unol â chanllawiau cenedlaethol ar Strategaethau Cyfranogiad Lleol a datblygiad Strategaeth Cyfranogiad Genedlaethol yn y dyfodol.

**Goblygiadau Ariannol** Gwneir y gwaith hwn gan dimau cyfredol a thelir costau o fewn cyllidebau costau rhedeg is-adrannol cyfredol, ni fydd unrhyw gostau ychwanegol.

**Argymhelliad 9**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:**

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau statudol i awdurdodau addysg lleol ar gyfranogiad cynghorau ysgolion mewn penderfyniadau am gyllidebau a monitro cyllidebau, a nodi'r amserlen ar gyfer y cam hwn.

**Ymateb: Derbyn**

Nid yw'n fwriad gennym i baratoi canllawiau ar wahân ar gyfer awdurdodau lleol ar gyfranogiad cynghorau ysgol yn y gwaith o benderfynu a monitro cyllidebau. Mae ein swyddogion wrthi'n paratoi canllawiau cyffredinol ar gyfranogiad disgyblion yng Nghymru ac, yn amodol ar ganiatâd y Gweinidog, bwriedir ymgynghori arnynt a'u cyhoeddi erbyn mis Mawrth 2011. Bydd y canllawiau hyn yn annog dull ysgol gyfan o weithredu i annog cyfranogiad disgyblion, gan gynnwys amrywiaeth o fentrau cynhwysol a chynrychioliadol yn ogystal â chyngor yr ysgol. Gellid paratoi adran benodol am ddulliau o sicrhau cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau cyllidebol, gan roi enghreifftiau o arferion da ar draws ystod eang o leoliadau dysgu ffurfiol ac anffurfiol.

At hynny, byddwn yn adeiladu ar y gwaith cyllidebu cyfranogol sy'n destun proses dendro ar hyn o bryd. Bydd hyn yn ategu'r gwaith i ddatblygu sgiliau ariannol a gwneud penderfyniadau gan bobl ifanc yng Nghymru drwy ddatblygu adnoddau, hyfforddiant a thrwy dreialu cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau ariannol ar lefelau personol, lleol a chenedlaethol gan gynnwys gyda chynghorau ysgol.

**Goblygiadau Ariannol** Ni fyddai'r cynnig hwn yn achosi unrhyw ystyriaethau cyllidebol ychwanegol i ysgolion nac awdurdodau lleol. Pe bai unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud, telid unrhyw gostau cysylltiedig â newidiadau o'r cyllidebau cyfredol, ac felly ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol.

**Argymhelliad 10**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i hwyluso mwy o ffocws ar ddealltwriaeth gyllidebol o fewn y cwricwlwm addysg, gan wella dealltwriaeth plant a phobl ifanc o'r broses gwneud penderfyniadau cyllidebol.

**Ymateb: Derbyn - Eisoes ar waith**

Mae addysg ariannol yn rhan o'r cwricwlwm ysgolion diwygiedig ar gyfer plant a phobl ifanc 7-19 oed yng Nghymru a gyflwynwyd o fis Medi 2008. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i blant o 7 oed ymlaen ddatblygu llythrennedd ariannol gan adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i ddechrau meithrin sgiliau llythrennedd ariannol cyn gynted â phosibl er mwyn paratoi pobl ifanc ar gyfer bod yn oedolyn a'r byd gwaith. Mae rheoli arian a chyllidebu yn un o themâu creiddiol addysg cyllid personol. Yn hyn o beth, er mai'r prif ffocws yw helpu pobl ifanc i reoli eu harian eu hunain, mewn nifer o feysydd, bydd y sgiliau a'r wybodaeth a feithrinir yn werthfawr wrth reoli prosesau cyllidebol ehangach.

Sefydlwyd Uned Addysg Ariannol Cymru (WFEU) gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, mewn partneriaeth â Chorff Addysg Ariannol y Defnyddwyr y DU (CFEB), fel rhan o *Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru: Mae Pawb yn*

Cyfrif. Daeth yr Uned yn weithredol ym mis Medi 2008 ac mae'n gweithio gydag ymarferwyr mewn ysgolion, awdurdodau lleol ac mewn partneriaeth â chydweithwyr yn y sector addysg bellach, y sector gwasanaethau ariannol a'r trydydd sector er mwyn:

- codi ymwybyddiaeth ymarferwyr o bwysigrwydd addysg ariannol a'r cymorth y gall WFEU ei roi.
- rhoi canllawiau a chyngor i ymarferwyr ar wneud y defnydd gorau o gyfleoedd ar gyfer addysg ariannol yn y cwricwlwm.
- rhoi cyngor ar adnoddau a deunyddiau addysgu priodol a chymorth o ran datblygiad proffesiynol parhaus.
- gweithio gyda darparwyr adnoddau addysgu i ddatblygu adnoddau sy'n cydnabod anghenion cwricwlaidd ac ieithyddol penodol Cymru.
- nodi a lledaenu arfer da wrth ddarparu addysg ariannol o bob cwr o Gymru a'r DU.

Bydd hyn yn ategu mentrau ehangach gan y Corff Addysg Ariannol Defnyddwyr a Llywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi addysg ariannol i bobl ifanc gan gynnwys gwaith ar Sgiliau Sylfaenol ac ymrwymiad Cymru'n Un i sicrhau y gall pob ysgol uwchradd fanteisio ar Undeb Credyd erbyn 2011.

Bydd cysylltiadau clir yn parhau i gael eu hannog rhwng addysgu addysg ariannol a chyfleoedd i bobl ifanc gael profiad ymarferol drwy gyllidebu cyfranogol, yn unol ag argymhelliad 10.

**Goblygiadau Ariannol** Y ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer WFEU yn 2010-11 yw £240K [£50K APADGOS, £50K Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol a £140K gan y CFEB]

**Argymhelliad 11**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu gwell gwybodaeth a chanllawiau ar-lein ar ariannu ysgolion. Dylid eu hysgrifennu mewn modd sy'n ddealladwy i blant a phobl ifanc, gyda chyn lleied â phosibl o jargon ariannol a llywodraethol, fel adnodd ar gyfer dysgu am wneud penderfyniadau am gyllidebau.

**Ymateb: Derbyn**

Rwy'n cytuno y gall cynhyrchu gwybodaeth mewn iaith a fformat syml hybu gwell dealltwriaeth o gyllidebau a sut maent yn gweithio'n ymarferol. Mae gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd yn cynnwys gwybodaeth am gyllid ysgolion gan gynnwys y dull o ddyrannu cyllid o San Steffan i Gymru, llywodraeth leol ac ysgolion. Mae hwn yn adnodd defnyddiol y gall ysgolion, awdurdodau a'r cyhoedd ei ddefnyddio. Rwy'n derbyn y gellid ailystyried y mater hwn gyda'r bwriad o symleiddio gwybodaeth ymhellach yn y dyfodol, a byddaf yn rhoi cyfarwyddyd i'm swyddogion weithredu'n unol â hynny.

http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/fundingschools/schoolfunding/?lang=en

Rhaid i ni gofio hefyd bod gan awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion amrywiaeth o ddyletswyddau/cyfrifoldebau statudol o ran y materion hyn a'u bod yn gweithredu o fewn fframweithiau rheoliadol cymhleth.

Byddai angen rhagor o waith i gwmpasu ei werth posibl fel adnodd i addysgu am brosesau gwneud penderfyniadau cyllidebol.

**Goblygiadau Ariannol** Caiff unrhyw gostau sy'n gysylltiedig ag unrhyw newidiadau eu talu o gyllidebau presennol, felly ni fydd unrhyw gostau ychwanegol.